OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 176

## Rheoliadau Addysg (Gwrthwynebiadau i Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006

**Dehongli**

**3.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "ardal berthnasol" yr un ystyr i "*relevant area*" yn Rheoliadau Addysg (Ardaloedd Perthnasol i ymgynghori ar Drefniadau Derbyn) 1999(**1**)

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("the National Assembly") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "nifer derbyn" ("*admission number*") yw'r nifer o ddisgyblion mewn unrhyw grŵp oedran perthnasol y bwriedir eu derbyn mewn unrhyw flwyddyn ysgol, fel a benderfynir gan awdurdod derbyn yn unol ag adran 89A(1)(**2**);

ystyr "nifer derbyn a nodir" ("*indicated admission number*") yw nifer y disgyblion mewn unrhyw grŵp oedran perthnasol a benderfynir yn unol â'r dull asesu capasiti a nodir yn y canllawiau, "Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru" (**3**);

mae i "rhiant" yr ystyr sydd i "*parent*" yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996(**4**).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at adran â Rhif yn gyfeiriad at yr adran honno o'r Ddeddf.

(**1**) O.S 1999/ 124.
(**2**) Mewnosodwyd adran 89(A) gan adran 47(2) o Ddeddf Addysg 2002.
(**3**) Mae'r canllaw yma ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol www.dysgu.cymru.gov.uk.
(**4**) 1996 p.56.